y dinesydd

Hydref 2001 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 266

BT
ATODIAD ARBENNIG
BT bob tro 0800 800 288
Defnyddiwch eich Cymraeg

# Mae posibilrwydd y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Gaerdydd yn 2008

Fel rhan o ymgyrch Dinas Caerdydd i ennill Statws Dinas Diwylliannol Ewropeaidd yn 2008 mae'r Awdurdodau yn awyddus i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i'r brifddinas unwaith eto. Y tro diwethaf buodd yr Eisteddfod yng Nghaerdydd oedd yn 1978 ar safle yn ardal Pentwyn ond os daw yn 2008 y gobaith ydy ei chynnal ar safle yn agos at ganol y ddinas ac i wneud ymdrech arbennig i ddwyn sylw pawb o fewn y ddinas a'r cyffiniau at yr ŵyl unigryw hon. Bydd dod â'r Eisteddfod i Gaerdydd unwaith eto yn dwyn budd economaidd yn ogystal â diwylliannol i'r ardal a chreu mwy o ymwybyddiaeth Gymreig yng nghalonnau trigolion y ddinas a'r Fro. Yn ôl adolygiad annibynnol a gafwyd ar ôl ymweliad yr Eisteddfod â Llanelli dangoswyd fod y budd economaidd leol o gwmpas 6.4 miliwn a felly ar sail economaidd yn unig byddai'n werth gweld yr Eisteddfod yn dod i Gaerdydd yn 2008 heb sôn am y gwerth diwylliannol a'r cyfle i ychwanegu at Gymreictod ein prif-ddinas.

## Penblwydd Hapus 10oed Aelwyd Hamdden Cymry Cymraeg Caerdydd



Dathlodd yr Aelwyd Hamdden ei phen-blwydd yn ddeg oed gyda the arbennig yn Festri Capel Minny Street ar 3 Hydref a chafwyd cyngerdd mawreddog yn dilyn gyda Chôr yr Aelwyd, Côr Plant Caerdydd, Lois Davies, Iona Jones a Myfanwy Jarman yn cymryd rhan. Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus i'r Aelwyd Hamdden ar gyrraedd y garreg filltir hon yn ei hanes a phob dymuniad da yn y dyfodol.

## Marw ymhell

Yn dawel ar 19 Medi yn Ysbyty Canberra yn Awstralia o ganlyniad i glefyd y gwaed bu farw Rhys Maengwyn Jones, Athro Anthropoleg ym Mhrifysgol Genedlaethol Awstralia; Athro Anrhydeddus yng Ngholeg y Brifysgol Cymru Casnewydd a Chymrawd Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a chyn Arweinydd Cymru a'r Byd. Roedd yn 60 oed a gedy gweddw Betty. Roedd yn gyfyrder i Rhodri Morgan, Prifweinidog y Cynulliad a bu'n byw yn Rhadur a mynychodd Ysgol Ramadeg Yr Eglwys Newydd. Mae ei chwaer Non Evans yn byw ger Llancarfan yn y Fro a chydymdeimlir â hi a'r teulu oll yn eu colled. Bu diweddar fam Rhys a Non, sef Enid Watkin Jones yn athrawes Ffrangeg yn Ysgol Hywel Llandaf am bum mlynedd ar hugain ac am nifer o flynyddoedd hi oedd yn gyfrifol am roi'r wobr yng nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu'r teulu yn aelodau yn y



Tabernacl yn yr Ais. Ymwelodd yr Athro Rhys Jones â Chymru am y tro olaf ar ddechrau'r flwyddyn hon a thra buodd yma cafodd ei benodi yn ddarlithydd ymweld anrhydeddus yng Ngholeg y Brifysgol Casnewydd.


## Catatonia 1993-2001

Erbyn hyn mae un o'r grwpiau pop mwyaf llwyddiannus wedi dod i ben a phawb yn mynd i'w ffordd ei hun. Bu amheuaeth am ddyfodol y grŵp am fisoedd wedi i Cerys Mathews orfod encilio dros gyfnod hir oherwydd salwch. Bydd hyn yn siom i'w llu o gefnogwyr nid yn unig yng Nghymru ond dros weddill Prydain ac ymhellach. Yn ystod eu gyrfa cyrhaeddwyd pen siart y deg uchaf mwy nag unwaith a gwerthwyd miloedd ar filoedd o'u halbwms a'u recordiau.

## Côr Merched Canna!

Beth amdani ferched?!!

A ydych yn rhydd am 2 awr ar **nos Lun**?!
Os felly, dewch yn llu i festri **Capel Salem**, Treganna,
am **7.30 y.h** i ymuno â Chôr Canna, côr brwdfrydig, egniol,
sy'n mwynhau canu ymhob arddull, o gerdd dant i'r blws!!



Mae tymor digon prysur o'n blaenau gyda nifer o gyngherddau yn ardal Caerdydd ee. Capel y Crwys, 5 Hydref, Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina, 5 Tachwedd, ac wrth gwrs yr Wyl Gerdd Dant yng Nghaerfyrddin ar 10 Dachwedd. Os ydych am fwy o fanylion, neu yn awyddus i ymuno, peidiwch oedi cyn codi'r ffôn.

Cysylltwch â Delyth Medi ar 20254468.
Mi fyddwn yn aros am eich galwad!!!

# Y Dinesydd

**Medi, Rhif 266.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road,Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Gwilym Roberts

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Siân Parry-Jones

### NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Tachwedd 2001 erbyn 20 Hydref at:**
Sian Parry-Jones, 87 Halliard Court, Glanfa Iwerydd, Caerdydd CF10 4NH (Ffôn: 07944-212083; e-bost: sepj@lineone.net)
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754),
E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

### HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270; E-bost: MennaGwyn@aol.com)

### CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

### FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £_________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: .......................................................................

Cyfeiriad: .......................................................................

.......................................... Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: .......................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.


## Cymrodorion Caerdydd yn Arwisgo Llywydd Newydd

Dr E Wyn James, Cadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd* ydy Llywydd newydd Cymrodorion Caerdydd ac mewn seremoni yng Nghapel Minny St ar 5 Hydref cafodd ei arwisgo yn Llywydd am y flwyddyn 2001/2. Traddododd ddarlith ar ôl y seremoni sef "Canu Gwerin Cwm Taf".

**Cystadleuaeth Hydref 2001**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 20 Hydref 2001.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 26** **Hydref 2001**



**Ar Draws**

2. Mae'r neidiwr allan o'r bag (5)
5. Nia a Bil ar yn ail yn cael offeryn (4)
7. Pum deg yn gwisgo lliw sy'n canu (4)
8. Dyro gini i wneud anfadwaith (8)
9. Pentref Beiblaidd lle ceir Elisabeth fach a'i bwyd beunyddiol (8)
11. Nid bychan mil arwr heb ei ail (4)
12. "Rhwng y brwyn yn sisial ganu;
    O na ___ __ ___ __ ___." (Ceiriog) (4,1,3,1,4)
15. Llanc dewr ar yn ail yn cael mesur o dir (4)
17. Crina dôl efallai heb fod ar lan y môr (8)
19. Yf mewn amgylchiadau ffraeth a di-bwys (8)
21. Gweler 4 i lawr (4)
22. Coron yn colli cylch a chreu offeryn (4)
23. Mae Dylan yn creu lle i gadw gwair (5)

**I Lawr**

1. "____ derfynau dy deyrnas
   A galw dy bobol ynghyd (M.R.) (7)
2. Cyfansoddwr enwog ond nid yn fawr o ran enw (3)
3. Yng nghanol troedfainc mae cyfarfod (5)
4. "Pentwr arall; yna gorffwys
   Ennyd ___ ___ _____
   Hydref eto, a bydd yntau
   Gyda'r ____." (Crwys) (2,2,5 a 4)
5. Perthynas Nia mewn trafferth (3)
6. Ai gwraig Benjamin ydyw? (5)
10. A yw buwch o'r Bala'n nerfus? (5)
11. Mae clod yn amgylchu pen Nain yn union (5)
13. A yw ci y dref yn cael lloches yng nghartre'r clerigwr (7)
14. "Gwynt yr hydref ruai _____
    Crynai'r dref i'w sail" (Crwys) (7)
16. Mae'n gwywo, a daw gwaedd 'Na!' o Loegr (5)
18. Stori nefol efallai (5)
20. Coed o egni diddiwedd (3)
21. "Cyfrannwr pob bendithion
    Ac Awdwr deall ____" (Elfed) (3)

**Atebion Croesair 25**

**Ar draws:** 1. Ddau sydd yn y gro; 8. Gwasgu; 9. Odid; 11. Ddilyn; 12. O mor hoff; 13. Abad; 15. Ddyry; 19. Famais; 20. Amgen; 22. Mefl; 23. Cadarn; 24. Mis y porffor ar. **I lawr:** 2. Argel; 3. Staeno; 4. Ddigiodd; 5. Gyda hwy; 6. O'r dyffrynnoedd; 7. Roedd gan fy mam; 10. Lol; 14. Amryfus; 16. Call; 17. Esgair; 18. Na chaffo; 21. Genfa.

Ymddiheuriadau fod un cliw ar goll. Er hynny, derbyniwyd 12 cynnig ac wyth ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn llyfr y tro hwn at Rhiain Phillips, Yr Hendre, 2 Rhodfa Plymouth, Radur. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Heledd Hall, Treganna; Idwal Hughes, Y Mynydd Bychan; Margaret Jones, Rhiwbina; Rhodri Jones, Penarth; Dilys Pritchard-Jones, Pwllheli; G Jones, Yr Eglwys Newydd a Huana Simpson, Y Bontfaen.

## Calendr y Dinesydd

**Llun, 8 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Oedi Ennyd.' Sgwrs gan Rhiannon Evans yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Iau, 11 Hydref**
Cyfarfod blynyddol Y Dinesydd yng Nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.
**Iau, 11 Hydref**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Cwrdd Diolchgarwch yn Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Gwener, 12 Hydref**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan Valmai Evans, yn festri Bethel, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd am 7.30 p.m.
**Llun, 15 Hydref**
Cymdeithas Wyddonol Caerdydd: 'Newidiadau Hinsawdd.' Darlith gan yr Athro Phil Williams, am 7.30 p.m. ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays.
**Mawrth, 16 Hydref**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Crwydro' gan Eiri Jones, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 16 Hydref**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: 'Pigion o Sain Ffagan.' Sgwrs gan Meinwen Ruddock, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.
**Mercher, 17 Hydref**
Cymdeithas Ty^'r Cymry, 11 Heol Gordon: Sgwrs gan Noel Williams ar hen bethau cyffredin a deflir (effemera), am 7.00 p.m. Dewch ag enghreifftiau.
**Gwener, 19 Hydref**
Canolfan Uwchefrydiau Cymry America, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd: Darlith gyhoeddus gan yr Athro M. Wynn Thomas (Abertawe) ar y testun 'Gwlad o Bosibiliadau: Golwg ar Lên Cymru ac America' yn Neuadd Aberdâr, Ffordd Corbett, am 7.00 p.m.
**Sadwrn, 20 Hydref**
Canolfan Uwchefrydiau Cymry America: Cynhadledd Undydd ar y testun 'Michael D. Jones, America a Chenedlaetholdeb Cymreig' yn Neuadd Aberdâr, Ffordd Corbett. Darlithwyr: Jerry Hunter, E. Wyn James, Bill Jones, Richard Wyn Jones, Glyn Williams. Manylion pellach: Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Blwch SP 910, Caerdydd CF10 3XW (Ffôn: 2087 4843).
**Mercher, 24 Hydref-Sadwrn, 27 Hydref**
Sgript Cymru yn cyflwyno'r ddrama 'Ysbryd Beca' gan Geraint Lewis yng Nhanolfan Chapter am 8 p.m.. Tocynnau: 029 2030 4400.
**Gwener, 26 Hydref**
Ysgol Undydd Cymdeithas Cysylltiadau Cyhoeddus Cymru yn adeilad y Cynulliad, Bae Caerdydd. Siaradwyr: John Emyr, Winston Roddick, David Davies AC a Tim Hartley. Manylion pellach: Siân Elin Jones, Y Grawndy, Castell-y-dryw, Llantriddyd, Y Bont-faen, Bro Morgannwg CF71 7UB (Ffôn: 029-2058-3341).
**Sadwrn, 27 Hydref**
Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru, Aberystwyth: Darlith Llandaf gan Catrin Stevens ar y testun 'Stori Pwy? Prosiect Hanes Llafar Menywod yng Nghymru, 1920-60', yn Ysgol Howell, Llandaf am 7.30 p.m. Tocynnau: £4.50.
**Mawrth, 30 Hydref**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Emyndonau Caneuon Ffydd' gan Robert Nicholls, am 7.30 p.m.
**Gwener, 2 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd: 'Kilsby Jones: Ai Hen Ffŵl Mwya'i Oes?' Sgwrs gan Havard Gregory, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.
**Llun, 5 Tachwedd**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf am 7.00 erbyn 7.30. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Tony Couch (Ffôn: 2075 3625; e-bost: tony.couch@talk21.com).
**Llun, 5 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Côr Canna, dan aweiniad Delyth Medi, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.
**Iau, 8 Tachwedd**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 erbyn 7.30. Sgwrs gan Falmai Griffiths: 'O'r Wlad i'r Dref.' Manylion pellach: 2065 7730 neu 2062 4878.
**Iau, 8 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Masnachu am Fywyd.' Sgwrs gan Elenid Jones yn Eglwys y Crwys, 77 Richmond Road, am 7.30 p.m.
**Gwener, 9 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd gan Gôr Plant Caerdydd dan arweiniad Mair Robins, ym Methel, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at elusen leol.
**Gwener, 9 Tachwedd**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Penny Readings' dan gadeiryddiaeth y Parch. Denzil John, am 7.30 p.m.
**Gwener, 9 Tachwedd**
Cylch Cadwgan: Darlith-gyflwyniad, 'Cnoc, cnoc! Pwy sy 'na?', gan John Ogwen a Maureen Rhys, yn festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth am 8.00 p.m.
**Llun, 12 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd, yn cyfarfod yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Gwener, 16 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Gwilym R.: O Dal-y-sarn i Ddinbych'. Darlith gan y Parch. W. I. Cynwil Williams am 7.00 p.m. yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd.
**Sadwrn, 17 Tachwedd**
Ysgol Undydd gan Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Caerdydd ar y tesun 'Pregethwyr a Chenhadon' yn Eglwys y Crwys, 77 Richmond Road. Darlithwyr: Sioned Davies, Hywel Teifi Edwards, E. Wyn James, Aled Gruffydd Jones. Manylion pellach: Yr Athro J. Gwynfor Jones, Adeilad y Dyniaethau, Prifysgol Caerdydd, Rhodfa Colum, Caerdydd (Ffôn: 2087 4000).
**Llun, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Caerdydd: 'Llygredd ac Iechyd Pobl.' Darlith gan Dr David Russell, am. 7.30 p.m. ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays.
**Mawrth, 20 Tachwedd**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson gwis yng nghwmni Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a Phenarth, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.
**Mercher, 21 Tachwedd**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon: Sgwrs gan Dr E. Wyn James ar Ann Griffithsyr emynyddes, am 7.00 p.m.
**Mawrth, 27 Tachwedd**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais: 'Y Cyfryngau a Fi' gan Rhiannon Rees, am 7.30 p.m.
**Llun, 12 Tachwedd-Iau, 15 Tachwedd**
Ysgol Gyfun Glantaf yn perfformio'r sioe gerdd, 'Primadonna', yn neuadd yr ysgol. Manylion pellach: 2033 3090.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## Cydymdeimir â:

- Patrick Whelan, San Hilari a'r teulu ar farwolaeth ei fam Lou Whelan ar 23 Awst yn 92 oed. Bu'r angladd yn Eglwys Cadog Sant, Y Bontfaen ar 31 Awst ac yn dilyn yn San Hilari.
- Roy Bohana, cyn ddirprwy gyfarwyddwr Cyngor y Celfyddydau yng Nghymru a chyn gyfarwyddwr cerdd Eisteddfod Llangollen ar farwolaeth annhymig ei wraig Liliana mewn damwain car yn Sofia, Bwlgaria yn ystod yr Haf. Cyfarfu'r ddau yn yr Eisteddfod yn Llangollen pan oedd hi'n canu gyda Chôr Cenedlaethol Bwlgaria.
- Muriel Fitzpatrick, Rhiwbina a'i theulu ar farwolaeth ei mab Gary James ar ôl salwch byr yn Ysbyty'r Brifysgol ar 7 Medi. Bu'r angladd yng Nghartref Gorffwys yr Eglwys Newydd ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.
- Sarah Barr a'i theulu, Rhiwbina ar farwolaeth ei mam Ceinwen Sybil Davies yn Llanwrtyd ar 9 Medi. Bu'r angladd yn Hen Eglwys y Plwy Llanwrtyd ar 15 Medi.
- theulu'r diweddar Eileen Davies gynt o Landaf a Phen y Groes Caerfyrddin a fu farw ym Mhenarth ar 22 Medi. Bu'r angladd yn Amlosgfa Treforus ar y 1 Hydref.

## Colli athrawes gerdd unigryw

Ar ddechrau Medi bu farw yr athrawes gerdd adnabyddus Beate Popperwell, 76 oed, gweddw Stanley Popperwell y canwr ffidil adnabyddus i genhedlaethau o blant a phobl ifanc Caerdydd. Y piano oedd prif offeryn Beate Popperwell ond hyfforddodd cannoedd o ddisgyblion i ddehongli cerddoriaeth wrth ganu a chanu gwahanol offerynnau. Cafodd ei geni yn 1924 yn Awstria a chafodd ei magu yn Vienna ond ffodd i Lundain yn 1938 i ddianc rhag llid y Natziaid. Gedy dau fab i alaru ar ei hôl.

## Michael D. Jones a Chymry America

Mae Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd newydd sefydlu canolfan ymchwil ar gyfer astudio perthynas Cymru â'r America. Bydd y ganolfan yn cael ei lansio'n swyddogol nos Wener a Dydd Sadwrn, 19-20 Hydref, yn Neuadd Aberdâr, Ffordd Corbett, Caerdydd (ar ben gogleddol Parc Cathays). Ar y nos Wener am 7.00 p.m. bydd yr Athro M. Wynn Thomas (Abertawe) yn traddodi darlith gyhoeddus ar y testun 'Gwlad o Bosibiliadau: Golwg ar Lên Cymru ac America'. Yna, ar y dydd Sadwrn, cynhelir cynhadledd undydd, 'Michael D. Jones, America a Chenedlaetholdeb Cymreig', a fydd yn rhoi sylw i un o arloeswyr cenedlaetholdeb Cymreig modern, ac un o brif sefydlwyr y Wladfa ym Mhatagonia. Y siaradwyr yn y gynhadledd undydd fydd Dr Jerry Hunter, Dr E. Wyn James, Dr Bill Jones, Dr Richard Wyn Jones a Dr Glyn Williams. Cymraeg fydd iaith y darlithiau, ond fe fydd cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gynhadledd trwy gysylltu ag Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Blwch SP 910, Caerdydd CF10 3XW (Ffôn: 2087 4843).

## Croeso'n Ôl i'r "Hen Wlad"!

Croeso'n ôl i Riwbina i Alun a Meinwen Guy ar ôl eu hymweliad cyntaf â'r Wladfa er mwyn i Alun fod yn feirniad cerdd yn Eisteddfod yr Ifanc yn y Gaiman dros y penwythnos 14/15 Medi.

## Cyfarfod Cymuned yn y brifddinas

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yn y brifddinas o Fudiad Cymuned, yn Chapter ar nos Iau, 2 Medi, i wyntyllu materion o bwys yn ymwneud â'r ardaloedd Cymraeg eu hiaith yng Nghymru. Sefydlwyd Mudiad Cymuned gyda'r bwriad o amddiffyn yr ardaloedd hyn ac i geisio sicrhau dyfodol mwy llewyrchus iddyn nhw.

## Soirée yn codi dros fil o bunnoedd

Nôl ym mis Mai cynhaliwyd soirée yng nghartref Hywel a Gwyneth Jeffreys ger Llyn Parc y Rhath fel noson o deyrnged i'r Parchg Cynwil Williams ar droethwy ei ymddeoliad fel gweinidog Eglwys y Crwys. Gwahoddwyd llu o artistiaid i berfformio a daeth llond y tŷ o bobl i gefnogi ac o ganlyniad codwyd £1,010 tuag at Gronfa'r Elusen Multiple Sclerosis.

## Cadeirydd Newydd i Ŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru

Clive Jones sy'n swyddog hŷn yng Nghwmni Teledu Carlton, perchnogion Cwmni Teledu HTV fydd yn olynu Geraint Talfan Davies fel Cadeirydd Gŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru. Brodor o Bontnewydd, Gwent ydy'r Cadeirydd newydd.

## Y Big Issue yn ddeg oed

Ymddangosodd y Big Issue am y tro cyntaf ar strydoedd Llundain yn 1991 fel modd o roi arian ym mhocedi pobl ddigartref drwy ei werthu i'r cyhoedd a chadw rhan o'r gost. Sefydlwyd Big Issue Cymru yn 1994 gan Su West a bellach gwerthir 11,000 copi yn wythnosol ar strydoedd Cymru. Erbyn hyn codir £1.20 am gopi ac mae'r gwerthwr yn derbyn 60c o'r pris.

## Anrhydedd i Simon West

Mewn seremoni arbennig yn Lerpwl ar 11 Medi cyflwynwyd rhyddfraint Dinas Lerpwl i Simon West, sylfaenydd yr Elusen The Weston Spirit yn 1988, gan Gerry Scott, Arglwydd Faer Lerpwl. Derbyniodd yr anrhydedd am ei ddewrder ar ôl derbyn anafiadau difrifol yn ystod Rhyfel y Malvenas ac am sefydlu'r Elusen sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Mae Simon West a'i deulu yn byw yng Nghaerdydd bellach. Llongyfarchiadau Simon.

## Cantores ar daith

Croeso'n ôl i'r gantores Iona Jones, Llandaf wedi ei hymddangosiad yng Ngŵyl Gymreig San Jose Califfornia ac fel unawdydd gyda Chôr Meibion Llanelli ar eu taith yn yr Unol Daleithiau ym mis Medi.

## Newid Swydd

Ar ôl pum mlynedd yn gweithio yn S4C mae Sarita Thomson yn gadael i weithio fel cofnodydd yn y Cynulliad yn y Bae. Mae hi'n gyn ddisgybl o Ysgol Hywel Llandaf a bu'n astudio'r Gymraeg a Saesneg yng Ngholeg y Brifysgol Abertawe.

## Rhodri yng Nghalifffornia

Buodd Rhodri Morgan, Prifweinidog y Cynulliad yn San Jose, Califfornia ar ddiwedd Awst mewn Gŵyl Gymreig a barodd bedwar diwrnod. Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Genedlaethol yr Amerig yn yr ŵyl a chyngherddau gyda Chôr Meibion Llanelli, y telynor Robin Huw Bowen a'r tenor Trebor Edwards yn perfformio ynddyn nhw. Croesawyd Rhodri Morgan yn swyddogol mewn gwledd a chafodd gyfle i geisio denu diwydiannwyr i fuddsoddi yng Nghymru ac i ddenu ymwelwyr yma. Daeth miloedd ynghyd i'r ŵyl o bob cwr o'r wlad a'r Gymanfa Ganu oedd y ddegfed a thrigain i'w chynnal.

## Llongyfarchiadau:

- i John a Catrin Howkins, Ystradowen yn Y Fro ar enedigaeth eu mab William Rhys, ŵyr cyntaf i Ceri ac Audrey Jones, Dinas Powys.
- i Mathew ac Amanda Mathias, Rhiwbina ar enedigaeth eu mab Osian ym mis Awst.
- i Roland a Gwawr Prys Davies, Llandaf ar enedigaeth eu mab Macsen Lyn ym mis Gorffennaf.
- i Dave a Kris Phelps, Dulyn (gynt o Riwbina) ar enedigaeth Rachel Helen, chwaer fach i Mathew ar 21 Awst.
- i Mrs Iolo Jones, "Cartre", ger Llyn Parc y Rhath ond gynt o Riwbina ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 yn ddiweddar.
- i Tomos a Siân Eleri Morgan ar enedigaeth Medi Gwenllian, chwaer i Gwenno Eleri yn Ysbyty Llandochau ar 5 Medi.
- i Richard a Rhian Carbis ar enedigaeth Owain Llyr eu hail fab ar 7 Awst.
- i Mari a Dylan Lloyd Hughes ar enedigaeth merch fach (Beca) yn ddiweddar.
- i Aled a Kathryn Evans, Llaneirwg ar enedigaeth eu hefeilliaid Sara ac Anna yn Ysbyty'r Brifysgol ar 23 Awst.
- i Tricia Harries, gynt o Frynaman ar ei phriodas â Nicholas Clarke o Gaerfaddon yn Eglwys y Santes Catherine ym Mrynaman ar 10 Awst. Maen nhw wedi ymgartrefu ym Mhenylan ac mae hithau yn fferyllydd yn y Fferyllfa ym mhentre Rhiwbina.
- i'r Parchg Brychan Hughes, Cyncoed ar ei briodas â Gwenno Moseley, Ynys Môn yng Nghapel y Crwys ar Ddydd Sadwrn, 8 Medi. Byddan nhw'n ymgartrefu yng Nghyncoed.
- i Dafydd Elfyn a Rhian Williams, Llysfaen ar enedigaeth eu mab Gruffydd Dylan yn ystod mis Awst. Wyr i John ac Anne Rees, Caerdydd a Hefin a Heulwen Williams, Corwen.
- i Eleri Hughes, Treganna ar gael swydd newydd yn Adran Addysg Bwrdd yr Iaith. Bydd hi'n dechrau ar ei dyletswyddau newydd ym mis Tachwedd.
- i Tomos Edwards, Llundain ar gael swydd gydag Asiantaeth Datblygu Cymru yng Nghaerdydd.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## TABERNACL, CAERDYDD

Testun llawenydd oedd clywed am lwyddiant pedair o aelodau'r capel yn ddiweddar ym myd addysg. Penodwyd Carys Burston yn Bennaeth Adran Ddrama Ysgol Glantaf, Lisa Thomas fel athrawes yn Ysgol Gymraeg Cynwyd Sant ym Maesteg, Angharad Lewis i swydd barhaol mewn ysgol i blant ag Addysg Anghenion Arbennig yn Nhrelai, a Catrin Rhys fel athrawes yn Ysgol Llwyn yr Eos, Aberystwyth. Bu'n rhaid ffarwelio â Llinos Jones wedi iddi hi dderbyn swydd fel rheolwraig gyda Banc Barclays yn Aberystwyth.

Mae rhai o bobl ifanc yr eglwys wedi dangos eu doniau wrth ganu organ y Tabernacl – ac oherwydd hyn yn dod â dimensiwn newydd, gwerthfawr i'r gwasanaethau. Y rhai sydd wrthi yn cael gwersi cyson gan Marc Jon Williams yw Alys Reed, Marged Jones ac Owain Williams – a'r tri erbyn hyn wedi canu'r organ mewn gwasanaeth. Yn aros ym myd Cerddorieth, bu Bethan Pickard ar daith gyda Cherddorfa Ysgolion Caerdydd i'r Unol Daleithiau.

Daeth gweithgareddau'r Gymdeithas Nos Fawrth i ben ar ôl blwyddyn llwyddiannus arall. Cydnabuwyd cyfraniad gwerthfawr Wyn Morris y llywydd, Beryl Eurig a Jean Evans yr ysgrifenyddesau, a Viv Evans y trysorydd. Eisoes dechreuodd gweithgareddau 2001-02, o dan arweiniad Margaret Hemmings fel llywydd, Megan Morris fel ysgrifenyddes a Jean Evans fel trysorydd, gyda thrip mewn cwch o gwmpas y Bae.

Llongyfarchwn Alan ac Alwyn Kemp ar ddathlu deugain mlynedd o briodas, eu priodas rhuddem. Hefyd pleser yw nodi priodas Geraint Williams dros yn haf. Ymhlith y genedigaethau oedd Isla, merch i Suzanne ac Archie Colquhoun ac ŵyres i Derek Griffiths, a Joseff Anthony, mab i Rebecca Lewis a David ac y cyntaf i Sue ac Anton Lewis.

Yn ddiweddar dathlodd y Parchg Ddr Hugh Matthews 40 mlynedd yn y weinidogaeth – bu cyfarfod arbennig yn Llanbed i ddathlu'r achlysur.

Testun balchder mawr oedd rhannu llawenydd Mererid Hopwood wrth iddi ennill cadair yr Eisteddfod Genedlaethol, a hithau'n un o blant y Tabernacl cyn i'w theulu symud o Gaerdydd

## Minny Street, Caerdydd

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theulu Mr Len Warrington a fu farw ym mis Awst wedi cyfnod o dostrwydd. Cofiwn yn arbennig am ei briod, Aerona, a'r plant, Geraint a Bethan a'u cymheiriaid. Cofiwn hefyd am nifer o'n haelodau sydd wedi colli anwyliaid dros y misoedd diwethaf.

Dymunwn adferiad iechyd buan i bawb sydd wedi bod yn anhwylus neu wedi bod mewn ysbyty dros y misoedd diwethaf. Da gennym fod ein Gweinidog, y Parchg Eifion Powell wedi gwella a chryfhau digon i fod yn ôl gyda ni yn yr oedfaon erbyn hyn – hyderwn y bydd yn parhau i gryfhau dros y misoedd nesaf.

Cynhaliwyd ein Gŵyl Bregethu Flynyddol ddydd Sul, Medi 16 yng nghwmni'r Parchg Ddr Gwyn Erfyl (Caernarfon). Yn dilyn wythnos lle'n syfrdanwyd oll gan y newyddion o Efrog Newydd cafwyd oedfa a neges fendithiol ac mor arbennig o amserol yn oedfa'r bore – pryd y bu'r Ysgol Sul hefyd yn cyflwyno eu baneri ar gyfer Gŵyl yr Annibynwyr, Diwrnod i'r Brenin (ac edrychwn ymlaen at fynd i'r Wyl yn Llanelwedd ar Fedi 22). Yn oedfa'r hwyr, buom yn croesawu cyfeillion niferus o eglwysi Cymraeg y ddinas ac unwaith eto cafwyd neges bwrpasol ac ysbrydoledig o enau ein pregethwr gwadd. Cawsom hefyd gyfle i gyfrannu tuag at elusen yr Eglwys am y flwyddyn i ddod, sef Apêl Arch Noa, a da medru nodi bod bron i £200 eisoes wedi dod i law.

Croeso cynnes a phob dymuniad da i Gruffydd Dylan, mab bach i Rhian a Dafydd Elfyn Williams (Llysfaen) ac ŵyr arall i John ac Anne Rees.

Dymunwn yn dda i Geraint Harries a Claire (Watkins) yn dilyn eu priodas ar Awst 24.

## EBENESER

**Bedydd**

Ar fore Sul Medi'r 9fed, bedyddiwyd Daniel Calan, mab Teleri a Glyn Jones, Creigiau. Ein dymuniadau gorau i'r tri ohonynt.

**Ymweliad o'r India**

Hefyd ar fore dydd Sul Medi 9fed, cawsom y pleser o groesawu dau o aelodau Eglwys Bresbyteraidd yr India o dalaith Misoram a oedd ar ymweliad â Chymru am fis. Cyflwynwyd rhoddion iddynt i nodi'r achlysur. Ar y nos Fawrth ddilynol cawsom yr hyfrydwch o baratoi swper i saith ymwelydd o Ogledd Ddwyrain yr India oedd ar y daith gyfnewid gydag Undeb yr Annibynwyr. Wedi gadael Morgannwg fe aethant i'r Gogledd ac yna i'r Gorllewin.

**Diwrnod i'r Brenin**

Ar 22 Medi aeth nifer dda o blant ac aelodau'r eglwys i "Diwrnod i'r Brenin", diwrnod o adloniant a gweithgareddau Cristnogol ar faes y Sioe yn Llanelwedd.

## BETHEL, RHIWBINA

Rydym yn dymuno'n dda i ddau o aelodau ieuainc yr eglwys - Sara Roberts yn treulio blwyddyn yn dysgu yn Brest yn Llydaw. Ac mae Trystan Francis wedi mynd i Frwsel i astudio Ffrangeg yn y Brifysgol yno.

Ail-ddechreuodd y cyfarfodydd ar foreau Mawrth dan arweiniad ein Gweinidog, y Parchg T Evan Morgan. Bydd Dosbarth Beiblaidd am 10.30 ar Hydref 9, 16, 30 a Tachwedd 6 a 20. A bydd boreau coffi ar Hydref 23 a Tachwedd 27. Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni.#

## EGLWYS DEWI SANT

Bedyddiwyd Catrin Elen, merch Erith ac Alan Davies, a chwaer Marc a Tomos ar Awst 26.

Dymunwn yn dda i Philippa a Huw Laugharne a briododd ar 14 Gorffennaf, ac i Darrell a Tracey Reed a briododd ar yr un ddiwrnod. Brodor o Ohio yw Darrell a dreuliodd flwyddyn yng Nghaerdydd yn astudio ar gyfer MA mewn Astudiaethau Gwerin. Roedd e'n mynychu gwasanaethau'r eglwys yn gyson. Cyfarfyddodd â Tracey tra roedd e'n astudio yma.

Llongyfarchiadau i John ac Ann Watkins ar ddathlu eu priodas rhuddem yn ystod mis Awst ac i'r Ficer, Meurig Llwyd ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeugain ar Fedi 16.

Cydymdeimlwn â Mary Jones, Hilary a Howard ar farwolaeth David Wynne Jones ac â Morfudd ar ôl colli ei brawd, Carey.

Cychwynnodd gweithgareddau'r Hydref gyda noson yn nhŷ bwyta Harry Ramsden yn y Bae, pan ddaeth tua deugain at ei gilydd i fwynhau'r pysgod a sglodion a noson gymdeithasol braf.

## Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd

Ddydd Sadwrn, 8 Medi, aeth nifer o blant ac oedolion ar drip blynyddol y capel, a chael amser difyr ym Mharc Bryn-garw. Cawsant ddiwrnod i'w gofio yng nghwmni ei gilydd a chyfle i fwynhau Haf Bach Mihangel oddi allan a nofio oddi mewn yn yr Aqua Dome, Aberafan, heb anghofio'r baned a'r cyfle i siopa yn y ganolfan siopa ar gyrion Pen-y-bont ar Ogwr.

Llongyfarchiadau i bawb a lwyddodd yn eu harholiadau yr haf hwn, a phob dymuniad da iddynt i gyd wrth ddechrau ar gyrsiau pellach yn yr ysgol. Dymuniadau gorau i Dafydd Elis, cyn Brif Swyddog Ysgol Gyfun Glantaf, wrth iddo ddechrau ym Mhrifysgol Bryste, lle y bydd yn dilyn cwrs mewn peirianneg. Ddydd Sul, 16 Medi, cafodd Dafydd ei dderbyn yn aelod llawn yn yr eglwys, a diolchwyd iddo am ei gyfraniad fel cyfeilydd ac am ei holl gefnogaeth i weithgarwch yr eglwys.

Wedi'r oedfa ar fore Sul, 23 Medi, cafwyd cyfle i weld sleidiau a dynnwyd gan y pregethwr gwadd, y Parch. Hywel M. Davies, Llangefni, yn ystod ei ymweliad ag eglwysi yn Unol Daleithiau America dros gyfnod o dri mis yng ngwanwyn a haf 2001.

Fore Sadwrn, 6 Hydref, cynhelir bore coffi i ddysgwyr y Gymraeg rhwng 10.00 a.m. a 12.00 p.m yn adeilad yr eglwys yn Harriet Street. Y bwriad yw cynnal darpariaeth debyg ar y bore Sadwrn cyntaf ym mhob mis yn ystod y tymor. Cynhelir oedfa arbennig i'r dysgwyr nos Sul, 11 Tachwedd.

Nos Fawrth, 16 Hydref, am 7.30 p.m., bydd Siôn Meredith, Cyfarwyddwr Tear Fund yng Nghymru, yn siarad am ymgyrch ddiweddaraf y mudiad yng Ngorllewin Affrica. Croeso cynnes i bawb.

## Sêr yn Salem



I lawer o bobl mae 'Sêr yn Salem' bellach yn un o draddodiadau'r ddinas, gyda chynulleidfa ffyddlon yn edrych ymlaen o flwyddyn i flwyddyn at noson arall o ddiddanwch cyn y Nadolig. Eleni, fe'i cynhelir yng Nhapel Salem, Treganna, nos Sadwrn, 1 Rhagfyr, am 7.30 p.m., gyda'r amrywiaeth arferol o ganu corawl ac eitemau unigol at ddant pawb.

Côrdydd, un o sawl côr ardderchog yng Nghaerdydd, fydd y côr gwadd y noson honno a phleser mawr fydd eu croesawu ar ôl eu perfformiad yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych. A phleser o'r mwyaf fydd cael y fraint o glywed llais un arall sy hefyd wedi ymddangos yn llwyddiannus ar lwyfan yr Eisteddfod. Deintydd yng Nghwrt Radur (Danescourt) yw Andrew Mathews, ac yn Llanelli y llynedd fe enillodd yr unawd tenor yn Eisteddfod y Mileniwm. Prin bod angen cyflwyno Siriol Wilde i neb yn y ddinas, gan iddi swyno cynulleidfaoedd ar hyd a lled Caerdydd, ac wrth gwrs yn adnabyddus i lawer yn rhinwedd ei swydd yn Ysgol Plasmawr. At y rhain fe gawn ambell gyfraniad gan rai o gerddorion dawnus y capel ei hun - a'r cyfan yn gyfle i gyfrannu tuag at goffrau elusennau sy'n brwydro i gynnal anffodusion y byd.

Dewch yn llu, os gwelwch yn dda.

## Cyhoeddi dyweddïad

Cyhoeddir dyweddïad Richard Gwyn Jones, Y Creigiau, mab Dilwyn a Marian Jones, â Marcia E Jarvis sy'n enedigol o Lanidloes. Mae Richard yn gweithio i OXFAM fel swyddog y cyfryngau ac mae Marcia yn beiriannydd masnachol rhyngwladol. Bydd y briodas yn Llanidoes fis Ebrill nesaf. Llongyfarchiadau i'r ddau.

## Croeso i Gaerdydd

Croeso i Gaerdydd i Ana Clara Camperos o Drevelin yn yr Andes. Mae hi newydd gwblhau cwrs Wlpan dau fis yng Ngholeg y Brifysgol Llanbedr a nawr mae hi'n dilyn cwrs Cymraeg pellach yn y Ganolfan Iaith yn Heol y Parc. Pob lwc iddi.

## Drama Newydd ar Daith

Mae Cwmni Sgript Cymru ar daith gyda drama newydd sbon gan Geraint Lewis, awdur dramâu megis "Y Cinio" ac "Y Groesffordd" a chyfresi teledu megis "Slac yn Dynn" "Ponteifi", "Iechyd Da" a "Smithfield". Ef hefyd fydd awdur y ddrama gomisiwn ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Tŷ Ddewi 2002. Enw ei ddrama ddiweddaraf ydy "Ysbryd Beca" ac fe'i perfformir gan yr actorion Phyl Harries, Rhys ap William ac Emyr Wyn yng Nghanolfan Chapter Caerdydd o Nos Fercher 24 Hydref - Nos Sadwrn, 27 Hydref am 8.00. Tocynnau 029 2030 4400.

## Llyfr newydd sbon i blant 5-7 oed

Mae Cwmni Cyhoeddi "Y Lolfa" newydd argraffu llyfr newydd i blant yn y gyfres "Llyfrau Llawen". Catrin Evans, gynt o Landybie ond sy'n byw bellach ym Mhenarth ydy awdur y stori a'i gŵr Guto Evans sy'n ddylunydd graffeg gyda chwmni Elfen yng Nghaerdydd sydd wedi cynhyrchu'r lluniau hynod drawiadol yn y llyfr. Mae cyfieithiad Saesneg o'r testun ar gael ar gyfer rhieni ac athrawon di-Gymraeg. Pris "*Oli Olew*" ydy £4.95 ac mae ar gael gan Guto a Catrin Evans, ffôn 029 2065 1754.

## Gwraig o Gaerdydd gynt yn siarad o Islamabad

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae sylw'r byd wedi troi at Affganistan a Phacistan o ganlyniad i'r ymosodiadau erchyll ar y Ddau Dŵr ym Manhattan ac ar y Pentegon ac mae S4C wedi llwyddo i gael siaradwraig Gymraeg i drafod y sefyllfa yn y rhan honno o'r byd gan fod Sara Walters, gynt o Gaerdydd yn byw yn Islamabad ers dros bymtheng mlynedd bellach ac yn briod â gwr o Bacistan. Bu ei thad yn brifathro Ysgol Uwchradd Heol Hir (Llanisien bellach) ac roedd y teulu yn aelodau ffyddlon yn Eglwys Dewi Sant Caerdydd. Mae ei Chymraeg yn dal yn loyw er iddi fyw ymhell o Gymru am dros bymtheng mlynedd.

## Ail godi tŷ "Prefab"

Cafodd "prefab" yn ardal Gabalfa a godwyd gyntaf yn 1948 ei ail godi yn Amgueddfa Sain Ffagan ac ar 13 Medi fe'i agorwyd yn swyddogol gan Russell Goodway, Arglwydd Faer Caerdydd

## Hunllef Efrog Newydd

Cafodd Dyfri a Mair Jones, Rhiwbina amser pryderus ac ingol adeg yr ymosodiad ar Ddau Dŵr Masnach y Byd yn Manhattan gan fod eu merch Eleri a'i gŵr Steve yn gweithio a byw yn yr ardal. Ond er mawr rhyddhad o'r diwedd cawson nhw wybod eu bod yn ddiogel. Yn ystod yr wythnos clywyd a gwelwyd Gareth Howell, gynt o Riwbina ac yn gefnder i Huw Llewelyn Davies, Rhadur yn siarad ar y cyfryngau am ei brofiad yn gwylio'r gyflafan o'i swyddfa ym Manhattan.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol
www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

# TUDALEN YR URDD

## Lansio Mistar Urdd

Ddydd Mercher, 19 Medi ail-lansiwyd Mistar Urdd yn nghwmni 600 o ddisgyblion ysgolion Cynradd Melin Gruffydd ac Eglwys Wen yng Nghaerdydd. Cychwynnodd y bore gyda chriw Planed Plant yn cynnal 'road show' ar gyfer y disgyblion yna daeth Daf Du a Gillian Elisa (Sabrina Pobol y Cwm) ar y llwyfan i adrodd hanes Mistar Urdd. Roedd cyffro mawr wrth i Mistar Urdd lansio ar gae yr ysgol mewn hofrennydd. Ar ôl iddo lanio mi ganodd y band 'CIC' gân 'Hei Mistar Urdd' a phawb yn ymuno yn y dawnsio. Diweddglo y bore oedd 500 o falwns coch, gwyn a gwyrdd yn cael eu lansio i'r awyr. Bore bythgofiadwy.....

Hoffai'r Urdd ddiolch yn gynnes iawn i staff a disgyblion ysgolion Melin Gruffydd ac Eglwys Wen am eu croeso.



# Gweithgareddau

Hanner Tymor Hydref 2001

### Cynradd

**22 Hydref** — **Trip i'r Aqua Dome**
(Nofio, Ffilm a byrger a chips) £12.99

**23 Hydref** — **Cwrs Merlota**
drwy'r dydd yn Mro Morgannwg £25

**24 a 25 Hydref** — **Cwrs Animeiddio**
2 ddiwrnod £24





### Uwchradd

**25 Hydref** — **Trip Nofio i Abertawe**
a McDonalds ar y ffordd nôl £10.50

**17 - 19 Chwefror**
**Trip Blwyddyn 7 ac 8 i Eurodisney** £139



Os am ragor o fanylion am y tripiau uchod cysylltwch â Sian Lewis (029) 2080 3354

## AR Y FFORDD I'R PREMIERSHIP!



Am y tro cyntaf yn hanes Clwb Peldroed yr Urdd, Caerdydd rydym wedi sefydlu Tîm Uwchradd eleni. Chwaraeodd y tîm ei gêm cyntaf ddydd Sadwrn, 1 Medi yn erbyn Marlborough ac ennill 1-0. Maent wedi mynd o nerth i nerth ers hynny ac wedi ennill pob gêm cyn belled. Hoffai'r Clwb Pêl-droed ddiolch i Enfys Jones am ei nawdd tuag at git newydd.

Mae'r tîm wedi cofrestru yng Nghynghrair Lleol Caerdydd (Cardiff & District League) a hoffwn ddymuno yn dda iddynt dros y flwyddyn nesaf.





# Plasmawr

## Taith Berfformio i'r Amerig


Ar ôl gweld yr erchyllderau yn Efrog Newydd a Washington, anodd yw credu mai dim ond saith wythnos sydd ers inni ddychwelyd oddi yno yn dilyn ein taith berfformio. Yn amlwg, rydym yn meddwl am y ffrindiau newydd a wnaethom ar yr adeg boenus hon.

Serch hynny, ar ôl blwyddyn o drefnu, ymarfer, aros ac edrych ymlaen, fe ddaeth hi'n amser i ni gychwyn ar y bythefnos o deithio a pherfformio. Fe wnaethom berfformio saith cyngerdd i gyd a hwythau'n amrywio o rai cwbwl anffurfiol ym Mae Baltimore i'r ddwy fawr o flaen tua 2,000 o bobl yn Bel Air, Baltimore ac yn Westport, Coneticut.

Buom yn ddigon ffodus i ymweld â nifer o fannau enwoca'r Amerig - Capitol Hill, Y Tŷ Gwyn a'r holl gof golofnau yn Washington. Aethom dros y ffin i Ganada i weld Rhaeadrau Niagra a chael teithio ar y 'Maid of the Mist'. Cawsom ddau ddiwrnod yn Efrog Newydd yn ymweld â'r Empire State Building, Statue of Liberty a Central Park. Gwelsom berfformiad o "Les Miserables" ar Broadway yn ogystal!

Mawr yw ein diolch i'r holl deuluoedd a wnaeth ein croesawu ni i'w cartrefi. Cawsom amser gwych yn eu cwmni ac fe wnaethant drefnu amryw o weithgareddau i ni yn ddyddiol. Arhoson ni gyda theuluoedd yn Bel Air, Baltimore, yn Lockport, New York a Westport, Coneticut. Ffarwelion ni â nhw drwy ganu Hen Wlad Fy Nhadau cyn mynd ar ein bysiau.

Cawsom amser bythgofiadwy. Aeth y cyngherddau yn wych a chawsom gymeradwyaeth anhygoel gyda'r Americanwyr yn diolch o ganol i ni am berfformio iddynt. Roeddynt oll yn gytun mai arwr y daith oedd Mr Jones a oedd yn llywyddu pob cyngerdd gyda'i gasgliad o jocs anhygoel o ddoniol!! Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y daith berfformio nesaf.



*Disgyblion Plasmawr yn yr Unol Dalaithiau*

**Criw America**

# Glantaf

## Glantaf ar Garlam

Ddydd Iau, 13 Medi, gwelwyd holl ddisgyblion Glantaf ynghyd â llawer o athrawon yn rhedeg cwrs traws gwlad yr ysgol. Bellach mae'r digwyddiad yma wedi ennill ei blwyf yng nghalendr yr ysgol.

Er nad oedd y tywydd yn arbennig o garedig gwelwyd brwdfrydedd gwych gan y rhedwyr oll. Llys Dewi oedd yn fuddugol gyda 205 o bwyntiau, Dyfrig yn ail, Teilo yn drydydd ac Illtud yn bedwerydd. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.





*Yn y lluniau gwelir rhai o redwyr Glantaf - disgyblion ac athrawon*

### *Llongyfarchiadau*

Llongyfarchiadau i Ellie Carey ar gael ei dewis unwaith yn rhagor i gynrychioli Cymru yn y tîm pêl-rwyd dan 18 oed.





### Prima Donna

Dewch yn llu i sioe wefreiddiol Ysgol Gyfun Glantaf. Mae hon yn mynd i fod yn sioe wahanol a bythgofiadwy. Mae Donna eisiau bod yn 'seren' y byd, ac yn anelu am y top! A yw hi yn mynd i lwyddo gyda'r holl drafferthion gartre a diffyg arian?



Mae'r cast wrthi'n brysur yn ymarfer yn ddyddiol, ac yn cael hwyl arni! Mae yna 120 o ddisgyblion yn y cast yn amrywio o flwyddyn 8 i flwyddyn 13 a braf yw gweld pawb yn cyd-dynnu a chyd-weithio a chael sbort ar yr un pryd!

Fe fydd y tocynnau ar werth cyn bo hir-ffoniwch 20333090 i archebu! Croeso i bawb! Fe fydd yn brofiad!

Prima Donna - Tachwedd 12, 13, 14, 15fed.

### BLWYDDYN ANHYGOEL I

# GOED-Y-GOF

Dyma un o'r blynyddoedd mwyaf llwyddiannus i Goed-y-Gof ar y maes chwarae! Curodd y tîm rygbi ysgolion eraill Cynradd Cymraeg Caerdydd yng nghystadleuaeth C.R.I.C.C.

Llwyddodd y tîm pêl-droed i guro wyth ysgol o'r un ardal drwy ennill Tarian y Tyllgoed i bêl-droedwyr o dan 10 oed.

Gwnaeth y Tîm Cyntaf yn dda iawn hefyd yng Nghynghrair Pêl-droed ysgolion Caerdydd.

Ymfalchïodd yr ysgol yn llwyddiant y plant yng nghyfarfod Athletau'r Sir, gan ddod yn ail ar y cyfan yng nghystadlaethau'r timoedd. Mewn Cyfarfod Gwobrwyo yn ddiweddar, derbyniodd y plant fedal yr un am eu hymdrechion.



Hefyd, mae'r ysgol yn ymhyfrydu mewn llwyddiant unigolion. Mae Joe Duffyn (Blwyddyn 3), Nathaniel Jarvis (Blwyddyn 4), Dafydd Jenkins (Blwyddyn 6), Aimee Hill (Blwyddyn 5), Sophia Watt (Blwyddyn 5) yn rhan o Ysgol Ragoriaeth Pêl-droed, Dinas Caerdydd. Cynrychiolodd Curtis Flowers a Luke Pitman (Blwyddyn 6) Dîm Rygbi Ysgolion Caerdydd.

Mewm athletau, mae gennym ddau ddarpar Linford Christie yn Nathaniel Jarvis (Blwyddyn 4) a Stuart Kerry (Blwyddyn 5) a fu'n bencampwyr sprint Caerdydd.

### Ffarwelio

Mae Miss Bethan Davies yn ffarwelio â Choed-y-Gof ac yn dychwel i ddysgu yn Ysgol Bro Lleu, Pen-y-Groes, Gwynedd. Dymuniadau gorau iddi yn y dyfodol.

### Noson Clonc a Thonc

Cafwyd noson arbennig o lwyddiannus yn ddiweddar yn codi arian i Uned Arbennig Coed-y-Gof. Difyrrwyd y gynulleidfa yn gerddorol gan gyn-ddisgyblion yr ysgol a'u ffrindiau, sef Lisa Nash, Johnathan Price a Siôn Trefor. Diolch i bawb am gefnogi'r noson.



*Trefnwyr 'Noson Clonc a Thonc'*

### Synnu a rhyfeddu yn Llychlyn

Brynhawn Llun, 13 Awst, hwyliodd llond bws o aelodau Eglwys y Crwys a rhai cyfeillion o Newcastle i Bergen, yn Norwy. Dyma gychwyn y diweddaraf o'r teithiau blynyddol a drefnir gan Mr Aled Evans mewn cydweithrediad â chwmni teithio Seren Arian, Caernarfon. Y nôd y tro hwn oedd ymweld â gwledydd Llychlyn.

Dyma amlinelliad bras o'r daith. Aros tair noson ym mhentref bychan Eidfjord, ar gainc o'r Hardanger Fjord , cyn croesi mynydd-dir uchel Norwy er mwyn cyrraedd y brifddinas, Oslo. Aros dwy noson yno ac, yna, ymlaen i Sweden gan letya dwy noson arall yng nghanol dinas Göteborg. Noson olaf mewn gwesty yn Copenhagen cyn y fordaith nos o Esbjerg i Harwich.

Bu'n gyfnod o ryfeddu. Ni allem gredu mor hafaidd oedd y tywydd trwy gydol yr amser, na chwaith, pa mor esmwyth fu'r ddwy fordaith. Roedd blasu danteithion, pryd bwyd nodweddiadol y Llychlynwyr, yn bleser arbennig. Pwy a anghofia'r golygfeydd dramatig o'n cwmpas wrth hwylio i fyny Hardanger Fjord i borthladd Bergen rhwng llethrau ysgythrog y mynyddoedd? A phwy a ddisgwyliai weld cnydau toreithiog o afalau, gellyg a cheirios yn aeddfedu'n braf ar lannau rhai o'r ffiordydd, yn llythrennol dan drwynau rhewlifoedd a chribau gwynion mynyddoedd uchaf Norwy?

Beth am y daith wefreiddiol o Eidfjord i weld rhaeadr enfawr Vringsfosssen yn uchel yn y mynydd-dir? Un funud, byddem yn ciledrych lawr i ddyfnder y ceunant ar ochr chwith y bws a'r funud nesaf byddem mewn twnel a oedd yn troelli i fyny mewn cylchoedd y tu mewn i'r mynydd er mwyn ennill uchder. Daethom yn gyfarwydd iawn â'r twneli hyn, rhai ohonynt yn bedair cilometr a mwy, o hyd. Profiad syfrdanol arall a gawsom oedd croesi mynydd-dir diffaith Hardangervidda ar ein ffordd o Bergen i Oslo; os ydy'r tirwedd mor elyniaethus yn ystod yr Haf sut le sydd yno ganol Gaeaf garw, tybed?

Penllanw'r daith oedd cael ein tywys o gwmpas Oslo gan Iori Roberts, yn wreiddiol o Langefni, Môn, ond sydd wedi byw yn Norwy ers ugain mlynedd. Roedd yn fraint cael ei gwmni am ddiwrnod cyfan gan ei fod yn medru traethu'n wybodus a diddorol ar unrhyw agwedd o fywyd a hanes Norwy a hynny mewn Cymraeg cyhyrog a graenus. Ef a ddangosodd i ni'r union fan lle y paentiodd Edward Munch ei ddarlun enwog "Y Sgrech" ac esbonio pam y gwnaeth hynny. Cawsom weld y darlun ei hun wedyn a chlywed hanes dirdynnol Munch a'i deulu ganddo. Yn ddiweddarach aeth â ni i Barc Vigeland a rhoi cipolwg yr un mor wefreiddiol i ni ar fywyd a gwaith y cerflunydd hwnnw wrth egluro arwyddocâd pob cerflun yn y parc. Yr oedd yr un mor frwdfrydig wrth draethu am y Naid Sgïo enwog ar y bryn uwchben Oslo ag y byddai wrth siarad, wedyn, yn yr Amgueddfa am longau'r Viking erstalwm.

A dyma fi'n ceisio cywasgu hanes deg diwrnod o wyliau mewn ychydig o baragraffau. Rhaid bodloni drwy ddweud ein bod wedi cael amser yr un mor ddifyr yn Sweden a Denmarc. Bu raid i ni blygu hyd at ein pengliniau wrth fynd o dan bont isel dros gamlas yn Götenborg rhag cael ein bwrw allan o'r cwch yr oeddem ynddo. Buom mewn cwch ar gamlesi Copenhagen wedi hynny a chael hwylio o fewn ychydig droedfeddi i'r forforwyn fach sy'n eistedd wrth ymyl y dŵr yno, hefyd y cawsom ymweld â Gerddi'r Tivoli, parc thema hynaf y byd, a siopa yn Strget a strydoedd hynafol eraill y ddinas. Daeth y gwyliau i ben yn rhy fuan o lawer. Mae gwledydd Llychlyn yn haeddu ymweliad arall!

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

### Cathod a chŵn



Roeddwn i'n clywed am bethau fel hyn yn digwydd, ond doeddwn i ddim yn meddwl byddai'n digwydd i mi. Mae fy mywyd wedi cael ei feddiannu gan ormeswr du a gwyn, troedfedd a hanner o hyd, gyda'r miaw mwya' swnllyd yng Nghaerdydd os nad yng Nghymru! Mae cath drws nesa' wedi penderfynu taw fy nhŷ i yw rhan o'i thiriogaeth a minnau'n gaethwas iddi. Mae'n dod i mewn trwy hen ddrws cath yn nrws y cefn, mae'n neidio ar fy arffed wrth imi wylio'r teledu, mae'n mynnu rhannu fy nghinio gyda fi (ac mae'n bwyta popeth, er taw ei ffefryn hi yw tiwna), ac mae'n cwyno'n uchel os wy'n ceisio defnyddio'r cyfrifiadur neu'r ffôn.


Rwy wastad yn dweud ei bod hi'n ffordd dda i ddysgwr ymarfer ei Gymraeg drwy siarad â'r ci neu'r gath, gan fod y ddau yn deall yr iaith. Y gwahaniaeth yw, dim ond y ci sy'n ufuddhau. Dwedwch wrth gi, "Dere 'ma!" ac mae'n dod; dwedwch wrth gath ac mae hi'n mynd i'r cyfeiriad arall. Gorchmynnwch wrth gi, "Paid" ac mae'n peidio; gorchmynnwch wrth gath ac mae hi'n parhau. Gofynnwch i gi eistedd ac mae'n eistedd; gofynnwch i gath ac mae hi'n dringo ar y ford. Mae ci yn cynnig pawen i chi; mae cath yn suddo ei chrafangau i mewn i'ch cnawd yn ddidostur. Mae ci yn eistedd yn dawel wrth ichi siarad ar y ffôn; mae cath yn ceisio rhoi ei hunan rhyngoch chi'r a'r derbynnydd. Byddai'n llawn cystal imi siarad Tsieinëeg!

Er hynny, os yw'ch bywyd chi'n cael ei reoli gan gath, byddwch chi'n gwybod bod nhw'n greaduriaid bach hoffus er gwaetha' popeth, ac mae'n ddymunol iawn cael eich croeso'n ôl o'r gwaith bob nos. A chofiwch, y fantais fawr o siarad Cymraeg â chath yw nad yw hi byth yn poeni am dreigladau!

**Geirfa**

meddiannu - *to take over*
gormeswr - *tyrant*
tiriogaeth - *territory*
caethwas - *slave*
arffed - *lap*
cyfeiriad - *direction*
gorchmynnu - *command*
crafangau - *claws*
suddo - *to sink* cnawd - *flesh*
didostur - *merciless*
derbynnydd - *receiver*
byddai'n llawn cystal imi - *I might as well*

### Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd (C.R.I.C.C.)



Mae tymor arall wedi dechrau, ac mae un o garfannau cryfaf C.R.I.C.C., sef carfan blwyddyn 6 wedi sicrhau buddugoliaeth gytaf y Clwb eleni, yn erbyn tîm dan 11 Ystum Taf. Sgoriwyd ceisiau gan Tomos Watcyn Jones, Lewis Haynes, James Maclean [Y Wern], Gwion Jones [Treganna] ac Owain Actie. Roedd David Rees yr hyfforddwr yn fodlon iawn gan fod nifer fawr wedi cael cyfle i chwarae ac yn rhoi canmoliaeth arbennig i Daniel Reed [Y Wern] Ni fu'r tîm dan 10 mor llwyddiannus y tro yma.

St. Albans 40 - 5 C.R.I.C.C. Kieran Lynch [Treganna]

St. Mellons 17 - 12 C.R.I.C.C. Ashley Harding [Mynydd Bychan] a Ryan Rees [Treganna].

## Y Border Bach — gan Hwn a Hon



Cefais gyfle'n ddiweddar i ymweld â Pharc Gwledig Bryngarw ger Pen-y-bont. Roedd nifer o bethau gwerth eu gweld yno, ac yn eu plith gardd Siapaneaidd.

Plannwyd yr ardd wreiddiol cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Erbyn y chwedegau roedd wedi gordyfu ond bellach mae wedi ei chlirio a'i hail-blannu. Fel byddech yn disgwyl mae yno ddŵr a phontydd, cerrig a llusernau, a thŷ te, ond yn fwyaf nodweddiadol ydy'r coed masam Siapaneiadd. Mae'r rhain yn goed siapus, hardd, drwy'r flwyddyn ond yn yr Hydref pan mae eu dail yn newid lliw, maent ar eu gorau. Mae'r rhai sydd yn Bryngarw yn reit fawr oherwydd eu hoedran, ond gan eu bod yn goed sy'n tyfu'n araf iawn maent yn addas i erddi o bob maint. Os yw eich gardd yn fach iawn gellwch dyfu rhai mathau mewn pot hyd yn oed. Mae rhai a dail porffor sy'n troi'n oren neu'n goch yn yr Hydref, ac eraill â dail gwyrdd sy'n troi'n felyn.

Y mwyaf cyffredin o'r rhai byrraf sy'n addas i ardd fach yw'r Acer Palmatum Dissectum Purpureum. Peidiwch â chael ofn yr enw hir! Acer yw'r enw ar goed masam, mae Palmatum yn dynodi siâp y ddeilen, h.y. fel llaw; mae Dissectum yn golygu fod y ddeilen ag ymyl torredig, a'r Purpureum yn dynodi'r lliw porffor. Dyw hon ond yn tyfu i ryw ddwy neu dair troedfedd o uchder felly yn addas i'w thyfu mewn pot. Cofiwch ddefnyddio compost addas a rhoi'r pot mewn man allan o haul y bore ac unryw wynt cryf fydd yn llosgi'r dail.

Os am roi un yn eich border, yna cyfunwch nhw â blodau Hydrefol fel yr Anemni Siapaneiaidd, neu'r Aster, gyda Colchicum neu Cyclamen oddi tanynt a bydd gynnych gyfuniad trawiadol i greu diddordeb yn yr ardd ar adeg a all fod yn ddi-liw.

Ac os ydych am b'nawn allan, yna mae'n werth y siwrne fer i lawr y drafford i'w gweld yn eu gogoniant yn eu cefndir traddodiadol ym Mharc Bryngarw.



### Miloedd yn gwylio rygbi a phêl-droed

Nos Fawrth, 18 Medi gwelwyd dros un fil ar ddeg o gefnogwyr tîm pêl-droed Dinas Caerdydd yn tyrru i faes Parc Ninian i weld Caerdydd yn ennill 2-0 yn erbyn Northampton. Yna ar nos Fercher, 19 Medi gwelwyd dros ugain mil o bobl yn y Stadiwm Genedlaethol yn gwylio tîm rygbi Cymru yn chwarae yn erbyn Rwmania ac ar ôl dechreuad eithaf symol i'r gêm yn llwyddo i ennill 81-9 gan sgorio un cais ar ddeg yn y fargen. Y gêm hon oedd yr hanner canfed tro i Robert Howeley chwarae dros ei wlad. Llongyfarchiadau iddo fe.



*Y Clogets yn cystadlu yn eisteddfod Dinbych.*

## Cystadlu

Nid ar chwarae bach mae penderfynu cystadlu ym mhrifwyl y Cymry. Mae rhyw bedair neu bum mlynedd wedi mynd heibio ers i Cwmni Dawns Werin Caerdydd ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod ond eleni gan fod cynifer o wynebau newydd yn y Cwmni taflwyd y cap i mewn i'r sgwâr.

Gan fod yr Eisteddfod yn y Gogledd rhaid oedd sicrhau llety. Rhian Gogs yn darganfod bythynnod gwyliau yn Llanrwst, chwech ohonyn nhw. Wel, erbyn diwedd yr wythnos mi oedd rhyw hanner cant o'r Cwmni wedi cyrraedd. Roedd y lle fel commune ond heb y wigwams. A dweud y gwir eilradd oedd y cystadlu i'r hwyl a gafwyd yn nhre Llanrwst a chroeso twymgalon Yr Eryr.

Gan fod cymaint o ieuenctid newydd yn y Cwmni y dyddiau hyn penderfynwyd mentro i gystadlu ar y gystadleuaeth arbrofol i grŵp clocsio, hynny yw, y Clogets. Bu paratoi manwl gan Christine Jones sydd wedi bod yn ein hyfforddi ers y cychwyn cyntaf. Ei syniad hi oedd cael y criw i glocsio i ganeuon cyfarwydd i'r De megis

"O Gaerdydd rwy'n dod", cyfieithiad o "I'm Kairdiff born and Kairdiff bred", "Delila" a "Big Spender". Cafodd pawb lawer o hwyl ar fy mhen i yn ceisio canu "O Gaerdydd rwy'n dod" ond enillon ni. Fi yw'r unig un o'r Cwmni Dawns sy wedi ennill ar lwyfan y Genedlaethol yn canu solo. Yr unig chwithdod yw fod gwefan yr Eisteddfod yn honni na fu Caerdydd yn cystadlu o gwbl ac yn dal i honni hynny.

Ar gyfer Cystadleuaeth Goffa Lois Blake bu'r paratoi hyd yn oed yn fwy manwl. Gwisgoedd ar gyfer deunaw o ferched, deg ar gyfer y ddawns llys ac wyth ar gyfer dawns ffair. Seiliwyd gwisgoedd "Meillionen" ar wisgoedd llys yr ail ganrif ar bymtheg a gwisgoedd "Gŵyl Ifan" ar ddisgrifiadau Margretta Thomas. Roedd trefniadau ymarfer yn gymhleth a dweud y lleia gan fod rhai o'r bechgyn yn y ddwy ddawns. Christine yn trefnu fod cerddoriaeth "Gŵyl Ifan" i gyd wedi ei seilio ar fisoedd Mehefin a Gorffennaf "Y Gôg Lwydlas, Daw hyfryd fis Mehefin" ayb., efallai na welodd y beirniaid hyn. Ta waeth, cystadlu ar y Ddydd Sadwrn a dod yn ail unwaith eto. Er hyn wythnos lwyddiannus dros ben a phawb yn edrych mla'n am y tro nesa. Gyda llaw yn y gystadleuaeth hon hefyd danfonwyd y dystysgrif anrhydedd atom yn ein llongyfarch am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth i gorau meibion dan 40 o leisiau! Rhyfedd o fyd yw byd cystadlu eisteddfodol!

**Rhodri Jones**

## Y Rhaglen "Dechrau Canu" yn 40 oed

Nos Sul, 16 Medi darlledwyd rhaglen arbennig ar S4C yn dathlu deugeinfed pen-blwydd y rhaglen boblogaidd "Dechrau Canu, Dechrau Canmol". Yn ystod yr Eisteddfod eleni gofynwyd i bobl i enwi eu hoff emyn ar gyfer y rhaglen a daeth emyn Lewis Valentine "Gweddi dros Gymru" ar y dôn Finlandia i'r brig gydag "Arwelfa" a "Tydi a Roddaist" yn uchel ar y rhestr.

## Rali Cymdeithas yr Iaith

Cynhaliwyd Rali o flaen adeilad y cynulliad ar 15 Medi pan ddaeth tua thri chant o bobl o bob cwr o Gymru ynghyd i gefnogi Cymdeithas yr Iaith yn ei hymdrech i sicrhau Deddf Eiddo a Deddf Iaith newydd. Cafwyd areithiau grymus gan Dafydd Iwan, Huw Lewis, a Siân Howys a chyflwynwyd deiseb yn cynnwys pymtheg mil o lofnodion yn cefnogi'r Gymdeithas i sylw'r llywodraeth yn y Cynulliad.

## Cynhadledd Plaid Cymru

Fe'i cynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant dros y cyfnod 20/21/22 Medi a chafwyd araith rymus gan Ieuan Wyn Jones, Llywydd y Blaid yn annog yr aelodau i uno ac i roi gorau i'r ymgecri mewnol er mwyn canolbwyntio ar yr etholiadau ar gyfer y Cynulliad yn 2003.

## Gofyn am gymorth

Dwi'n chwilio am ddeunydd Cymraeg sy'n gysylltiedig â'r rhyfel Cartref yn America (1861-5) ar gyfres cyfres o raglenni hanes gaiff eu dangos ar S4C. Bu llawer o fewnfudwyr Cymraeg yn ymladd yn y rhyfel hwn - tybed a fu aelodau o'ch teulu chi yn yr Unol Daleithiau yn y cyfnod yma? A oes gennych unrhyw lythyrau, dyddiaduron, lluniau neu straeon teuluol amdanyn nhw? Os oes, tybed fuasech chi mor garedig â chysylltu â mi: Jerry Hunter, d/o Cwmni Da, Cae Llenor, Caernarfon, Gwynedd LL55 2HH.


Ar agor i dderbyn galwadau gan gwsmeriaid preswyl: 8.00 y bore i 6.00 yr hwyr Llun i Sadwrn

BT

**Ffoniwch heddiw**
i ofyn am rif, ffoniwch 192.
Gofynnwch am rywun sy'n siarad Cymraeg

BT bob tro 0800 800 288
Defnyddiwch eich Cymraeg



**Diolch o galon!**

Ydych chi wedi colli cyfle rhywdro i ddweud "Diolch o galon"?


A hoffech chi droi'r cloc yn ôl a chael cyfle i wneud?

Oes 'na rywun yn eich ardal chi wedi gweneud cyfraniad arbennig, neu wedi rhoi gwasanaeth diflino, ac yn haeddu diolch?

Oes 'na rywun sy'n haeddu'r cyfarchiad "Diolch o galon" am ba reswm bynnag?

Os oes, cysylltwch â ni ar unwaith ond peidiwch â dweud wrthyn NHW!

**Cwmni Teledu Tonfedd Eryri**
**Hen Ysgol Aberpwll • Ffordd Bangor • Y Felinheli • Gwynedd • LL57 1SD**
**Ffôn: 01248 671167**
**E-bost: marian.elis@ff-eryri.demon.co.uk**




**DISGO TEITHIOL CERI CLWB**

Cerddoriaeth Gymraeg / Dwyieithog / Saesneg

Priodasau  Partion Penblwydd

Lletygarwch Corfforaethol

**Ar gael dros Gymru benbaladr**
**Ffoniwch Ceri Morgan**
**ar 07774 816209**

AEGIS YMGYNGHORWYR
ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*

**Geraint B. Llewelyn**

LL.B. B.A(ADD) MLIA (DIP)

**291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED,**
**CAERDYDD, CF23 6PA**
**FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309**

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORUCHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL

**PATAGONIA**

**Darganfyddwch Y Wladfa Gymraeg go iawn.**
**Y cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg — gwestai, teithiau, adloniant a llawer mwy.**

**Gallwn drefnu eich taith cyfan (o Gaernarfon i'r Gaiman), neu deithiau arbenigol byr i fannau mwyaf anghysbell a hanesyddol y Wladfa.**

Prisiau cystadleuol – manylion ar gael.
Cysylltwch ag Olwen neu Meirion ar 07813 720442
neu ywladfa@hotmail.com

**TRYDANWR**

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**
neu **07967 559664**